**HYSBYSIAD BOD GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL WEDI EI WNEUD**

**ADRAN 53 O DDEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**MAP A DATGANIAD DIFFINIOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (YCHWANEGU CILFFORDD GYFYNGEDIG YN ARWAIN O LWYBR TROED 8 CEFN CRIBWR I TY-ISAF ROAD) RHIF 1 2024**

Bydd y Gorchymyn uchod a wnaed ar 28/02/2024, os caiff ei gadarnhau fel y'i gwnaed, yn addasu Map a Datganiad Diffiniol yr ardal drwy ychwanegu atynt y Gilffordd Gyfyngedig o'r gyffordd â Llwybr Troed 8 Cefn Cribwr wrth Bwynt A (Cyfeirnod Grid SS 85458209), gan barhau tua'r gogledd-ogledd-ddwyrain yn gyffredinol am ryw 185 metr hyd at ei chyffordd â'r briffordd gynaliadwy bresennol yn Tŷ-Isaf Road, Pwynt B (Cyfeirnod Grid SS 85518226).

Gellir archwilio copi o'r gorchymyn ac o fap y gorchymyn yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell Pil, Canolfan Bywyd Pil, Helig Fan, Pil, CF33 6BS yn ystod eu horiau agor: Dydd Llun 9:00 - 6:00; Dydd Mawrth 9:00 - 6:00; Dydd Mercher 9:00 - 6:00; Dydd Iau 9:00 - 6:00; Dydd Gwener 9:00 - 6:00; Dydd Sadwrn 9:00 - 3:00 neu gellir eu harchwilio ar-lein yn https://www.bridgend.gov.uk/cy/busnes/trwyddedu/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/ neu drwy gysylltu a rightsofway@bridgend.gov.uk neu drwy ffonio: 01656 642545. Yn ychwanegol, gellir archwilio copi o'r gorchymyn a map y gorchymyn neu maent ar gael yn rhad ac am ddim yn y Dderbynfa Ddinesig yn y cyfeiriad isod yn ystod oriau swyddfa.

Rhaid i unrhyw sylw neu wrthwynebiad ynglŷn â'r gorchymyn gael eu hanfon mewn ysgrifen at K Watson, Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, yn y cyfeiriad isod, erbyn **24/04/2024** fan bellaf, a gofynnir i'r ymgeiswyr nodi ar ba sail y'u gwneir.

Os na wneir sylwadau neu wrthwynebiadau ynglŷn â'r gorchymyn (neu unrhyw ran ohono) yn y modd priodol, neu os caiff unrhyw rai a wneir felly eu tynnu'n ôl, caiff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gadarnhau'r gorchymyn ei hun (neu ran ohono) yn hytrach na'i gyflwyno (neu ran ohono os yw'r awdurdod wedi dewis gwneud hynny drwy hysbysiad i Weinidogion Cymru o dan baragraff 5 o Atodlen 15 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) i Weinidogion Cymru. Os cyflwynir y gorchymyn i Weinidogion Cymru (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), anfonir unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau sydd heb eu tynnu'n ôl gyda'r gorchymyn.

Os yw'n anodd ichi ymateb mewn ysgrifen, neu os oes arnoch angen yr hysbysiad mewn fformat arall, er enghraifft print brasach, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio yn y cyfeiriad isod neu drwy'r Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Ffôn: 01656 643643.

Sylwch y gall pob sylw a ddaw i law gael ei ystyried yn gyhoeddus gan y Cyngor ac y gellid trefnu bod cynnwys unrhyw sylwadau (ynghyd ag enw a chyfeiriad y sawl a'u cyflwynodd) ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd. Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth Gymraeg, atebir unrhyw ohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

**DYDDIEDIG:**07/03/2024

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.

K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB

HIG001-1098/ A763/1/221 L